

# WRU HUB PROGRAMME
# RHAGLEN HWB URC

Spring Newsletter Cylchlythyr Gwanwyn

#WRUHub

#GameForAll

# Reports

For clarity Club engagement is a planned visit to engage with a team and a or club/female hub. On the day you can count the engagements with a number of teams if you spend the full session or game with them e.g. you spend 1hr with U8s and 1hr with U12s is 2 engagements and they should be counted separately.

**We would also like all hub officers who work collaboratively to deliver formal WRU CPDs (Continuous Professional Development) in Clubs and Female Hubs that it is only recorded by the lead officer to avoid double counting the events.**

We are also keen for participants to be counted correctly the key below illustrates how each box should be completed throughout the report.

**Next report due at the end of the spring term, date 31st March.**

| Colour of cell | Ask | Clarity |
|---|---|---|
| | Complete every session/course/event | Stack up individuals e.g. 4 sessions with 20 children is 80 |
| | Complete only once per individual (NEW) | Only put in those who attend there first session e.g. number is 20 participants |
| | Complete update every half term to show EDI / non club player engagement | Stack up every half term e.g. HT1 = 20 children participated and HT2 = 20 as same children participated |
| | No need for you to complete as we can access this data directly | Applicable for curriculum sessions |

# Adroddiadau

Er eglurder, ymrwymiad â chlwb yw ymweliad wedi'i gynllunio i ymgysylltu â thîm a/neu glwb/hwb menywod. Ar y diwrnod gallwch gyfrif yr ymrwymiadau gyda nifer o dimau os ydych yn treulio’r sesiwn neu gêm lawn gyda nhw e.e. rydych yn treulio 1 awr gyda’r chwaraewyr dan 8 oed ac 1 awr gyda chwaraewyr dan 12 oed yn ddau ymrwymiad a dylid eu cyfrif ar wahân.

**Hoffem hefyd i bob un o’r swyddogion hwb sy’n gweithio ar y cyd gyflwyno DPPs (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) URC ffurfiol mewn Clybiau a Hybiau Menywod sydd ond yn cael ei gofnodi gan y swyddog arweiniol er mwyn osgoi cyfrif y digwyddiadau ddwywaith.**

Rydym hefyd yn awyddus i gyfranogwyr gael eu cyfrif yn gywir. Mae'r allwedd isod yn dangos sut y dylid llenwi pob blwch drwy gydol yr adroddiad.

**Adroddiad nesaf i'w gyhoeddi ar ddiwedd tymor y gwanwyn, dyddiad 31 Mawrth.**

| Lliw y gell | Gofynnwch | Eglurder |
|---|---|---|
| | Cwblhewch bob sesiwn/cwrs/digwyddiad | Cyfrifwch unigolion e.e. 4 sesiwn gyda 20 o blant yw 80 |
| | Cwblhewch unwaith fesul unigolyn yn unig (NEWYDD) | Rhowch y rhai sy'n dod i’r sesiwn gyntaf yn unig e.e. y nifer yw 20 o gyfranogwyr |
| | Cwblhewch ddiweddariad bob hanner tymor i ddangos ymgysylltiad EDI / chwaraewyr nad ydynt yn glwb | Cyfrifwch bob hanner tymor e.e. HT1 = cymerodd 20 o blant ran a HT2 = 20 gan fod yr un plant yn cymryd rhan |
| | Nid oes angen i chi ei gwblhau oherwydd gallwn gael y data hyn yn uniongyrchol | Yn berthnasol ar gyfer sesiynau cwricwlwm |

# Headlines for term 1

**People** 208 coaches & 94 referees active delivering or officiating on 2,224 occasions
**Places** 3,392 engagements with WRU Clubs or Female Hubs supporting the transition of 1,331 players into the community
**Playing** 3,183 events & games to support 11,423 participants in extracurricular sport including 3,133 non-club participants from Yr 7 to Yr 13 in half term 1
**Promote** 1,838 sessions delivered by hub officers in specific ALN establishments or classes
**Partner** 90 Fit Fed Fun Camps delivered to 3,540 attendees

# Penawdau ar gyfer tymor 1

**Pobl** 208 o hyfforddwyr a 94 o ddyfarnwyr wrthi'n cyflawni neu'n dyfarnu ar 2,224 o achlysuron
**Lleoedd** 3,392 o ymrwymiadau â Chlybiau neu Hybiau Menywod URC, gan gefnogi'r broses o drosglwyddo 1,331 o chwaraewyr i'r gymuned
**Chwarae** 3,183 o ddigwyddiadau a gemau i gefnogi 11,423 o gyfranogwyr mewn chwaraeon allgyrsiol, gan gynnwys 3,133 o gyfranogwyr nad ydynt yn ymwneud â chlwb o Flwyddyn 7 i Bl 13 yn ystod hanner tymor 1
**Hyrwyddo** 1,838 o sesiynau wedi'u cyflwyno gan swyddogion hwb mewn sefydliadau neu ddosbarthiadau ADY penodol
**Partner** Dosbarthwyd 90 o Wersylloedd Ffitrwydd, Bwyd, Hwyl i 3,540 o bobl a oedd yn bresennol



# WRU HUB PROGRAMME 3.0 - KEY PERFORMANCE INDICATORS - 2022/23

## PLACES

100 ESTABLISHMENTS

25 ETHNICALLY DIVERSE COMMUNITIES EDC ABOVE 10%

FREE SCHOOL MEALS FSM 40 ABOVE 20%

HUB OFFICERS WILL LINK WITH 195 LOCAL RUGBY CLUBS

THE OPEN UNIVERSITY

**R**UGBY
**E**DUCATION
**A**TTAINMENT
**C**OHESION
**H**EALTH

## PARTNERS

67 SECONDARY SCHOOLS

4 UNIVERSITIES

14 REGIONAL FOUNDATIONS

7 COLLEGES

8 ALN SPECIFIC ESTABLISHMENTS

EVIDENCE THE **IMPACT** OF THE HUB **PROGRAMME** TO SHOW THE RETURN ON INVESTMENT, THIS IS CURRENTLY ESTIMATED AT **OVER £3M**.

## PLAYING

SUPPORTING PATHWAY OF 32,000 PLAYERS

1000 BOYS & 500 GIRLS

TRANSFERRED TO CLUBS ANNUALLY

375 MALE 200 FEMALE TEAMS

100,000 CHILDREN & YOUNG PEOPLE CAPTIVE AUDIENCE



## PEOPLE

200 COACH & REFEREE DEVELOPMENT SESSIONS

1000 COACH & REFEREE DEPLOYMENT OPPORTUNITIES ANNUALLY

## PROMOTE

BUILD TO DELIVER 500 ***Fit, fed, fun!*** CAMPS ANNUALLY PROVIDING OVER **20,000 MEALS**

**ESPORTS** ROLL OUT IN **SCHOOLS**

DELIVER **WHEELCHAIR RUGBY** OPPORTUNITIES

BUILD UP TO WHEELCHAIR EUROPEAN RUGBY CHAMPIONSHIPS IN CARDIFF

EURO 23

HWB RYGBI HUB RUGBY WRU

# Tickets Wales Women

The attached form is for group ordering and all ticket queries are managed by Cardiff Rugby - ticket.office@cardiffrugby.wales

We welcome Ireland to Cardiff Arms Park on Saturday 25 March and England on Saturday 15 April (both 2.15pm) and we would love to see you there! The support we had at Cardiff Arms Park last year made such a difference to every player that took the field. After kicking off our campaign by beating Ireland in Dublin, to return home to a record crowd against Scotland gave everyone involved a huge boost and no doubt lifted our performance and helped us record another win.

In the meantime, we can't wait to meet all our supporters – old and new at the Arms Park this spring and show the world what women's rugby is all about. Come down early to take part in our Pre-match skills, games and fun sessions on field for U14s as well as plenty of fun off field activities before Wales take to the pitch.

Seated Tickets for the Women's Tik Tok Six Nations are on sale now at £10 and £5 via wru.wales/w6nbut anyone with links to a Welsh club, Female Hub or school can benefit from discounted rates

Complete the registration form for your hub/school to bag your standing tickets for £1 (Under 17s) or £5 for adults.



# Tocynnau Tîm Menywod Cymru

Mae'r ffurflen wedi'u hatodi ar gyfer archebu mewn grŵp a chaiff pob ymholiad am docynnau ei reoli gan Rygbi Caerdydd – ticket.office@cardiffrugby.wales

Rydym yn croesawu Iwerddon i Barc yr Arfau Caerdydd ddydd Sadwrn 25 Mawrth a Lloegr ddydd Sadwrn 15 Ebrill (y ddau 2.15pm) a byddem wrth ein bodd yn eich gweld chi yno! Gwnaeth y gefnogaeth a gawsom ym Mharc yr Arfau Caerdydd y llynedd gymaint o wahaniaeth i bob chwaraewr a chwaraeodd ar y cae. Ar ôl cychwyn ein hymgyrch drwy guro Iwerddon yn Nulyn, gwnaeth dychwelyd adref i'r dorf fwyaf erioed yn erbyn yr Alban roi hwb enfawr i bawb, a chododd ein perfformiad yn ddiau a'n helpu i gofnodi buddugoliaeth arall.

Yn y cyfamser, roeddwn yn ysu am gael cwrdd â'n holl gefnogwyr – hen a newydd, ym Mharc yr Arfau y gwanwyn hwn a dangos i'r byd beth yw hanfod rygbi merched. Dewch yn gynnar i gymryd rhan yn ein sgiliau cyn y gêm, gemau a sesiynau hwyl ar y cae i dîm dan 14, yn ogystal â digonedd o hwyl oddi ar y cae cyn i Gymru fynd ar y cae.

Mae Tocynnau ar Eistedd ar gyfer Pencampwriaeth y Chwe Gwlad Tik Tok i Ferched ar werth nawr am £10 a £5 drwy www.wru.wales/w6n ond gall bawb sydd â chysylltiadau â chlwb Cymraeg, Hwb Menywod neu ysgol fanteisio ar gyfraddau gostyngol

len gofrestru ar gyfer eich hwb/ysgol i gael eich tocynnau sefyll am £1 (Dan 17 oed) neu £5 i oedolion.



# Tickets Wheelchair Rugby

The 2023 Wheelchair Rugby European Championships ticketing is now live and the event will hold schools days on the 3rd, 4th and 5th May at the Principality stadium.

Please see the attached schools buying guide along with the ticketing link: https://www.ticketmaster.co.uk/wheelchair-rugby-european-championship-tickets/artist/5402284 It is important to note that schools have to select the single day not 3-day pass to access the discounts and that this is to be explicitly used for schools and not distributed to other networks.

This will be pushed out again with more details as we move towards May, but I felt it was important to get this info out to you all asap.

# Open University

The WRU in collaboration with the Open University (OU) have been developing a project to evaluate the efficacy of the Hub programme. During the summer Hub Officers and Academics met to discuss the project in a variety of locations in Wales to map out an approach. The first part of this approach is to work with 5 schools in Wales to help inform just how this evaluation might work in practice. The necessary ethical approvals for this stage are now in place and a team from the OU are preparing to work with schools in a workshop setting that will include staff and students to better understand what will work in practice. These workshops will hopefully take place the week beginning the 6th of March.



# Tocynnau Rygbi Cadair Olwyn

Mae tocynnau Pencampwriaethau Ewropeaidd Rygbi Cadair Olwyn 2023 bellach yn fyw a bydd y digwyddiad yn cynnal diwrnodau i ysgolion ar 3, 4 a 5 Mai yn stadiwm y Principality.

Gweler y canllaw prynu ysgolion sydd wedi'i atodi ynghyd â'r ddolen docynnau: - https://www.ticketmaster.co.uk/wheelchair-rugby-european-championship-tickets/artist/5402284 . Mae'n bwysig nodi bod yn rhaid i ysgolion ddewis y tocyn undydd ac nid y tocyn tri diwrnod i gael y gostyngiadau, a bod hwn i'w ddefnyddio'n benodol ar gyfer ysgolion ac nid i'w ddosbarthu i rwydweithiau eraill.

Caiff hyn ei gylchredeg unwaith eto gyda rhagor o fanylion wrth i ni symud tuag at fis Mai, ond roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig rhannu'r wybodaeth hon â chi i gyd cyn gynted â phosibl.

# Y Brifysgol Agored

Mae URC, ar y cyd â'r Brifysgol Agored, wedi bod yn datblygu prosiect i werthuso effeithiolrwydd rhaglen yr Hwb. Yn ystod yr haf, cyfarfu Swyddogion yr Hwb ac Academyddion i drafod y prosiect mewn amrywiaeth o leoliadau yng Nghymru i fapio dull gweithredu. Rhan gyntaf y dull hwn yw gweithio gyda phum ysgol yng Nghymru er mwyn helpu i lywio sut yn union y gallai'r gwerthusiad hwn weithio'n ymarferol. Mae'r cymeradwyaethau moesegol angenrheidiol ar gyfer y cam hwn ar waith erbyn hyn, ac mae tîm o'r Brifysgol Agored yn paratoi i weithio gydag ysgolion mewn lleoliad gweithdy a fydd yn cynnwys staff a myfyrwyr i ddeall yn well beth fydd yn gweithio'n ymarferol. Y gobaith yw y bydd y gweithdai hyn yn cael eu cynnal yr wythnos sy'n dechrau ar 6 Mawrth.



# New Hub Officers & Establishment

Welcome to the Hub Programme

Collin Fulthrope – Cardiff West
Claudia Meyrick – Pen y Dre
Callum Riordan – Wrexham RFC
Pip Lantos – Castell Alun
Matthew Lewis – Newport High

New schools are joining in the summer term with the following schools set to appoint Officers.

Queen Elizabeth High
Dyffryn Taf
Gowerton
Dyffryn Ogwen
Dyffryn Conway

.

We would like to thank Lewis School Pengam for their support of the WRU Hub Programme. They are not looking to continue in the programme following Matthew’s departure. We wish them every success in the future and hope that rugby continues to flourish in the school

# Finance

Only 30% of establishments have invoiced for the amount this year. Please send an invoice for period August 1st 2022 to 31st July 2023 for full amount minus any gaps in service. Invoices should include the name of the establishment and be sent to accounts@wru.wales



# Swyddogion a Sefydliad Hwb Newydd

Croeso i Raglen yr Hwb

Collin Fulthrope – Gorllewin Caerdydd
Claudia Meyrick – Pen-Y-Dre
Callum Riordan – Clwb Rygbi Wrecsam
Pip Lantos – Castell Alun
Matthew Lewis – Ysgol Uwchradd Casnewydd

Mae ysgolion newydd yn ymuno yn nhymor yr haf a bydd yr ysgolion canlynol yn penodi Swyddogion.

Ysgol Uwchradd Y Frenhines Elisabeth
Dyffryn Taf
Tregŵyr
Dyffryn Ogwen
Dyffryn Conwy

Hoffem ddiolch i Ysgol Lewis Pengam am gefnogi Rhaglen Hwb URC. Nid yw'n bwriadu parhau yn y rhaglen yn dilyn ymadawiad Matthew. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn y dyfodol a gobeithio y bydd rygbi yn parhau i ffynnu yn yr ysgol.

# Cyllid

Dim ond 30% o sefydliadau sydd wedi anfonebu am y swm eleni. Anfonwch anfoneb am y cyfnod rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023 am y swm llawn llai unrhyw fylchau yn y gwasanaeth. Dylid cynnwys enw'r sefydliad yn yr anfonebau, a'u hanfon i accounts@wru.wales



# Hub Education Centre

Throughout the last few months, the WRU have been developing further information and resources as part of the Hub Education Centre. We have uploaded the following topics;

**Admin** – The national and regional reports are on the Hub Education Centre of the WRU game locker. You can also find information 2021-22 and the Hub Programme review from 2020.

**Promote** – Includes new information on Disability Training and Wheelchair Rugby

**Education** – Resources include a Six Nations Activity Pack, Minecraft for Education, E-Sports Resources, ALN Summary & Digital Classroom

**Education & training** – Induction information related to the WRU Hub Programme Aims Objectives and Job Description

Log on via Home - Home - WRU Game Locker

# Canolfan Addysg yr Hwb

Dros y misoedd diwethaf, mae URC wedi bod yn datblygu rhagor o wybodaeth ac adnoddau fel rhan o Ganolfan Addysg yr Hwb. Rydym wedi lanlwytho'r pynciau canlynol:

**Gweinyddu** – Mae'r adroddiadau cenedlaethol a rhanbarthol ar Ganolfan Addysg Hwb locer gemau URC. Gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth 2021-22 ac adolygiad y Rhaglen Hwb o 2020.

**Hyrwyddo** – Yn cynnwys gwybodaeth newydd am Hyfforddiant Anabledd a Rygbi Cadair Olwyn

**Addysg** – Adnoddau yn cynnwys Pecyn Gweithgareddau'r Chwe Gwlad, Minecraft for Education, Adnoddau E-Chwaraeon, Crynodeb ADY ac Ystafell Ddosbarth Ddigidol

**Addysg a hyfforddiant** – gwybodaeth sefydlu yn ymwneud ag Amcanion a Swydd-ddisgrifiad Rhaglen Hwb URC

Mewngofnodwch drwy Hafan - Locer Gemau URC





# Diolch